Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

**Hysbysiad o Gyfarfod**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod

# Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dyddiad:** **Dydd Llun, 22 Mawrth 2021**

**Amser:** **3.30 pm**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd Mary Sherwood**

**Aelodaeth:**
Cynghorwyr: C R Doyle, P K Jones, E T Kirchner, D Phillips, C Richards, K M Roberts a/ac L V Walton

Aelodau Cyfetholedig: Andrew Davies

**Gwylio ar-lein:** **http://bit.ly/3qBtiFx**

---

## Agenda

| | | Rhif y Dudalen. |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2 | **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**<br>www.abertawe.gov.uk/DatgeluCysylltiadau | |
| 3 | **Cofnodion.**<br>Cymeradwyo a llofnodi, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol. | 1 - 5 |
| 4 | **Rhannu Gerddi. (Llafar)** | |
| 5 | **Tyfu Bwyd Cymunedol. (Llafar)** | |
| 6 | **Ymgyrch Cynyddu Nifer Y Bobl Sy'n Hawlio Budd-daliadau. (Llafar)** | |
| 7 | **Tegwch o Fewn y Polisi Iechyd Gwyrdd. (Llafar)** | |
| 8 | **Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy. (Llafar)** | |
| 9 | **Polisi Dyledion Corfforaethol. (Llafar)** | |
| 10 | **Rhoi'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar Waith. (Llafar)** | |

11 Cynllun Gwaith 2020-2021. 6 - 7

**Cyfarfod nesaf:** Dydd Llun, 26 Ebrill 2021 ar 3.30 pm

Huw Evans

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Dydd Llun, 15 Mawrth 2021**
**Cyswllt: Gwasanaethau Democrataidd: - 636923**

Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 22 Chwefror 2021 am 3.30pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | D Phillips |
| C Richards | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Jane Storer | Uwch-swyddog Hawliau Lles |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Kat Watkins | Rhwydwaith Cydgynhyrchu |
| Ange Bettany | Prosiect Room to Grow |
| Joyce Veheary | Prosiect Benthyca a Thrin |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner a K M Roberts
Aelod(au) Annibynnol: Andrew Davies

---

### 19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 20 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi fel cofnod cywir.

### 21 Hawlio Budd-daliadau

Cyflwynodd Jane Storer, yr Uwch-swyddog Hawliau Lles adroddiad a roddodd wybodaeth i'r Pwyllgor am y problemau ynghylch hawlio budd-daliadau, y rhesymau dros dan-hawlio, enghraifft o waith a wnaed yn y gorffennol i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, ymgyrchoedd cyfredol, nodi blaenoriaethau'r dyfodol o ran cynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau a sut gallai'r Pwyllgor gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Amlinellwyd bod y Pwyllgor wedi nodi'r angen i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau yn Abertawe. Nod mwyhau'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau oedd sicrhau bod pobl yn hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo ac yn cynyddu incwm eu cartref.

Nododd yr adroddiad y problemau o ran hawlio budd-daliadau, gan gynnwys y canlynol: -

- Nid oes gan bobl ddigon o wybodaeth am y system fudd-daliadau na dealltwriaeth ohono;
- Mae staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cael eu hyfforddi yn y meysydd y maent yn gweithio ynddynt yn unig, a'u diffyg gwybodaeth gyffredinol;
- Rhoddir y cyngor anghywir yn aml i bobl sy'n cysylltu â chanolfan alwadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac maent yn credu nad oes ganddynt hawl i unrhyw fudd-daliadau pan fo'r gwrthwyneb yn wir;
- Mae'r hyn y mae gan yr unigolyn hawl iddo'n dibynnu ar ei amgylchiadau ac mae'n aml yn gymhleth;
- Mae sefydliadau sy'n cynnig mynediad at gyngor diduedd am ddim yn cael eu llethu gan nifer mawr y ceisiadau;
- Gwneir newidiadau cyson i'r system fudd-daliadau, gan olygu bod hawlwyr yn symud i mewn ac allan o grwpiau hawl ac wrth i amgylchiadau newid, effeithir ar eu hawl; nid yw hawlwyr budd-daliadau'n sylweddoli y byddai hynny'n effeithio arnynt.

Yn ogystal, tynnwyd sylw at sawl rheswm dros pam y mae pobl yn tan-hawlio budd-daliadau ac roedd y rhain yn cynnwys diffyg adnoddau i helpu hawlwyr drwy'r broses; diffyg gwybodaeth am y budd-daliadau sydd ar gael; nid yw hawlwyr yn meddwl bod ganddynt hawl i fudd-daliadau; profiadau gwael yn y gorffennol; ailasesiadau parhaus; ofn; a stigma.

Trafodwyd graddau'r tan-hawlio a dywedwyd ei fod yn broblem eang ymhlith grwpiau penodol o bobl; dangosodd ffigurau a ryddhawyd yn 2016-2017 fod dros £16 biliwn mewn budd-daliadau sy'n destun prawf modd heb gael ei hawlio.

Amlygodd yr adroddiad y camau gweithredu a oedd wedi gweithio i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o hawl pobl i gael budd-daliadau, herio canfyddiadau pobl o hawlwyr budd-daliadau gan gynnwys stereoteipio negyddol a darparu cymorth ychwanegol wedi'i deilwra i'r unigolion pan fo angen.

Amlinellwyd manylion yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ymgyrch hawlio credyd pensiwn, a darparwyd gwybodaeth am y grwpiau a gynorthwywyd gan ymgyrchoedd hawlio blaenorol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Sut roedd y wasg yn barod iawn i adrodd am straeon negyddol ond yn cymryd amser i adrodd am hawliadau dilys a'r stigma y maent yn ei greu ynghylch hawlwyr a'r iaith negyddol a ddefnyddir;
- Y symiau bach iawn o arian o'i gymharu â symiau twyll busnes;

- Effaith unrhyw gyngor gwael/anghywir a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Proses apelio'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Y broses anodd y mae unigolion yn ei hwynebu i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, y cymorth ymarferol y gall y cyngor ei gynnig a'r cymorth y gall Cynghorwyr ei gynnig;
- Newid canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch budd-daliadau a sicrhau bod unigolion yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt;
- Y gamdybiaeth fod y rhan fwyaf o hawlwyr budd-daliadau'n ddi-waith pan fo'r mwyafrif naill ai'n gyflogedig neu'n bensiynwyr mewn gwirionedd;
- Sut roedd pandemig COVID-19 wedi dechrau newid canfyddiadau wrth i fwy o bobl sylweddoli'r anawsterau a wynebir pan fyddant yn byw ar £94 yr wythnos;
- Y potensial i'r cyngor gynnwys gwybodaeth gyda biliau blynyddol Treth y Cyngor, er enghraifft trwy gynhyrchu taflen i'w dosbarthu ledled cymunedau neu ddosbarthu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Cynnwys pob Aelod Seneddol/Aelod o'r Senedd mewn unrhyw gyhoeddusrwydd er mwyn gallu dosbarthu gwybodaeth yn ehangach;
- Defnyddio banciau bwyd lleol i ddosbarthu taflenni gyda pharseli bwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ddarparu'r adroddiad a dywedodd y byddai trafodaethau ychwanegol yn cael eu cynnal mewn gweithgor ynghylch cefnogi ymgyrchoedd i hawlio budd-daliadau yn y dyfodol. Ychwanegodd y byddai'r taflenni sy'n cefnogi'r ymgyrch bresennol i ddefnyddio credyd pensiwn hefyd yn cael eu dosbarthu gan fanciau bwyd ac y byddent hefyd yn cael eu trafod mewn cyfarfod gweithgor.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 22 Rhannu Gerddi

Cyflwynodd y Cadeirydd Ange Bethany o brosiect Room to Grow yn Uplands a Joyce Veheary, sylfaenydd Benthyca a Thrin fel rhan o ymchwiliadau'r Pwyllgor i rannu gerddi.

Amlinellodd Ange Bethany fanylion y prosiect Room to Grow yn Uplands. Tynnodd sylw at y ffaith bod y prosiect wedi defnyddio a thrawsnewid 6 gardd flaen nad oedd neb yn gofalu amdanynt o jyngl concrit i erddi bwytadwy hyfryd, h.y. rhandiroedd bach, a'u bod am greu "coridor gwyrdd" o Brynymor Road yr holl ffordd i ganol tref Uplands.

Ychwanegodd fod y prosiect wedi derbyn ymateb anhygoel gan y gymuned a bod ganddo bellach gnwd cyson o gynnyrch o'r 6 thŷ sy’n rhan ohono. Dysgodd lawer mewn amser byr wrth wneud y prosiect ac mae wedi mwynhau gweld pobl yn stopio i fwynhau'r ardd a gofyn cwestiynau. Tynnodd sylw hefyd at fanteision niferus y prosiect i'r gymuned.

Yn y cam nesaf, roedd am weld faint o dai ychwanegol y gellid eu cofrestru ar gyfer y prosiect a gweld effaith weledol cael nifer mawr o erddi blaen wedi'u trawsnewid, a fyddai'n gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol yn yr ardal. Byddai plannu gwelyau

uwch yn helpu i liniaru fflachlifoedd a byddai'r planhigion yn cynyddu ansawdd aer, yn gwella bioamrywiaeth ac yn darparu bwyd a mwynhad i'r gymuned.

Amlinellodd Joyce Veheary, un o aelodau sefydlu Benthyca a Thrin sy'n brosiect ar draws y DU, fanylion y prosiect. Nodwyd bod cynghorwyr wedi derbyn ffilm fer i'w gwylio, sy'n esbonio'r prosiect a sut y cafodd ei drefnu.

Esboniwyd bod y prosiect yn seiliedig ar achub gerddi nad oes neb yn gofalu amdanynt trwy rannu gerddi. Gallai perchnogion gerddi nad oeddent yn gallu gofalu amdanynt roi benthyg eu gerddi i'r prosiect a chaniatáu i'r rheini nad oes ganddynt ardd neu a oedd yn aros am randir ddefnyddio'r lle.

Ychwanegodd fod nifer o ddinasoedd yn cymryd rhan ledled y DU a bod y prosiect yn seiliedig ar rai egwyddorion syml iawn a oedd hefyd â'r nod o ddod â phobl at ei gilydd.

Trafododd y Pwyllgor y gwahanol agweddau ar y ddau brosiect gan gynnwys: -

- Ehangu'r ardaloedd sydd ar gael i'r ddau brosiect;
- Sut y gallai'r ddau brosiect gydweithio;
- Bod Room to Grow yn annog amrywiaeth o gynnyrch gan gynnwys llysiau, blodau a phlanhigion i ddenu pryfed peillio;
- Bod Room to Grow yn canolbwyntio ar erddi blaen;
- Ymgysylltiad cadarnhaol y ddau brosiect â'r gymuned;
- Y gweithdrefnau a ddilynir gan y ddau brosiect, yn enwedig diogelu preswylwyr drwy sicrhau mynediad diogel i'r ardd heb fynd i mewn i unrhyw eiddo;
- Yr anawsterau parhaus a wynebir gan y ddau brosiect drwy gydol pandemig COVID-19 a sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r prosiectau'n glynu wrth y cyfyngiadau presennol;
- Bod yr Heddlu lleol wedi cynghori pobl Room to Grow ynghylch sut i barhau â'r prosiect o fewn y cyfyngiadau presennol;
- Y potensial enfawr i ehangu'r ddau brosiect a'r manteision enfawr i'r gymuned/yr amgylchedd a gynigir gan y ddau;
- Defnydd cadarnhaol o wirfoddolwyr o'r cymunedau a fyddai o fudd enfawr iddynt;
- Sut gallai'r cyngor/y Pwyllgor gynorthwyo a hyrwyddo'r ddau brosiect.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y ddau brosiect am eu presenoldeb ac am amlinellu eu prosiectau. Ychwanegodd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal mewn cyfarfod gweithgor ac yr adroddir wrth y pwyllgor am y cynnydd

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y trafodaethau.

## 23 Cynllun Gwaith 2020-2021

Darparodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2020-2021.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10pm

**Cadeirydd**

# Agenda Item 11

Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Report of the Chair**

**Poverty Reduction Policy Development Committee – 22 March 2021**

## Work Plan 2020-2021

| Date of meeting | Agenda items and Format |
|---|---|
| 26/10/20 | • Terms of Reference. (For Information)<br>• Co-option of Andrew Davies<br>• Dates and Times of Future Meetings. (Discussion)<br>• Presentation - Policies Under Development Update. (Jo Portwood)<br>• Swansea Food Poverty Network. (Anthony Richards)<br>• Work Plan Discussion 2020-2021. (Chair) |
| 23/11/20 | • Discussion - Community Food Growing. |
| 14/12/20 | • Working Group Meeting |
| 25/01/21 | Work Plan Update Discussion on the following (Chair): -<br><br>• Green Fairness Policy<br>• Corporate Debt Policy<br>• Promoting Affordable Credit Policy<br>• Campaign to increase Benefits take up<br>• Implementation on the Socio-Economic duty and the Community Food Growing Policy |
| 22/02/21 | • Benefits Take Up Report. (Jane Storer)<br>• Garden Sharing (Discussion)<br>• Work Plan 2020-2021. (Chair) |
| 22/03/21 | • Garden Sharing<br>• Community Food Growing<br>• Campaign to increase Benefits Take up<br>• Fairness in Green Health Policy<br>• Promoting Affordable Credit Policy<br>• Corporate Debt Policy<br>• Implementation of the Socio-Economic duty |
| **Topics** | |
| | • Green Fairness Policy<br>• Corporate Debt Policy<br>• Promoting Affordable Credit Policy<br>• Campaign to increase Benefits take up<br>• Implementation on the Socio-Economic duty & the Community Food Growing Policy<br>• Poverty proofing emerging policies / programmes |

| | |
|---|---|
| | • Public Transport (Access to affordable transport/Community Transport Schemes)<br>• Credit Unions<br>• Unexpected / sudden poverty |